S4C

04.08.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Lawr i lan y môr am wyliau gartref

Cwmni da, bwyd blasus, cyfle i ymlacio ac ambell antur (yn ogystal â thywydd braf) – dyna, mae'n debyg fyddai'n gwneud y gwyliau delfrydol i'r rhan fwyaf ohonom.

Dyna hefyd sydd ar restr dymuniadau'r ddau griw fydd yn pacio'u bagiau ac yn mynd ar antur yma yng Nghymru fach yn **Gwyliau Gartref** wrth i'r gyfres barhau yr wythnos hon.

Pentref glan-môr tlws Llangrannog, sy'n adnabyddus fel cartref Mistar Urdd a lleoliad gwersyll yr Urdd fydd lleoliad y gwyliau i Beti a Dom, brawd a chwaer o Gaerdydd a Gwenan a'i merched o Rydaman.

Bydd dwy gyllideb go wahanol, ond yr un fydd y mwynhad. O'r ddau lety gwahanol i'r gweithgareddau gwych a'r bwydydd blasus, bydd y ddau griw yn canfod y perlau sydd ar eu stepen drws.

Tydi Beti a Dom o Gaerdydd heb fod ar wyliau gyda'i gilydd ers rhai blynyddoedd, ond mae digon o atgofion o rai'r gorffennol wrth iddyn nhw edrych ymlaen at eu taith:

"Ein gwyliau arferol ni oedd mynd i garafán pan o'n i'n ifanc i Sir Benfro. Gwyliau perffaith i fi fydd rhywle i ffwrdd o dwristiaid lle dwi'n gallu teimlo'r diwylliant a bwyta'r bwyd," meddai Dom, sy'n gyflwynydd cyson ar wefan Hansh.

Ond y tywydd sydd ar feddwl Beti, ei chwaer, sy'n astudio Ffasiwn yn y brifysgol, ac hefyd yn cyflwyno ar Hansh:

"Ar wyliau haf dwi'n hoffi bod yn boeth," meddai Beti. "Dwi'n casau bod yn oer!"

Mae Gwenan sy'n wreiddiol o Fangor, ond bellach yn byw yn Rhydaman yn edrych ymlaen at gael profiadau newydd gyda'i dwy ferch, Megan (12 oed) ac Anni (9 oed) ar eu gwyliau nhw:

"Fel arfer dan ni'n mynd i Ewrop - i Ffrainc neu Sbaen i fwynhau gwyliau campio, neu mewn carafán" meddai Gwenan.
"Ein gobeithion ni ar gyfer y gwyliau yma yw ein bod ni'n cael lot fawr o hwyl efo'n gilydd a bod ni'n cael cyfle i neud pethau newydd fel teulu dan ni ddim wedi neud o'r blaen."

Ymysg y gweithgareddau fydd yn cael eu profi ar y gwyliau fydd gêm o ddisg golff, dosbarth sgiliau sling a rhaff, gwers syrffio ac ymweld â chwmni jin lleol.

Er gwaetha'r gwahaniaeth rhwng y ddwy gyllideb, a fydd pawb wedi plesio? A wnaiff y tywydd ddal i Beti? A bydd Megan ac Anni'n cael hwyl gyda'u mam? Rhaid gwylio i weld!

**Gwyliau Gartref**
**Dydd Sadwrn 16 Awst, 9.00, S4C**
**Isdeitlau Cymraeg a Saesneg**
**Ar alw: S4C Clic; BBC iPlayer a llwyfannau eraill**
**Cynhyrchiad Boom Cymru ar gyfer S4C**

04.18.2022

Heledd Williams
Cyswllt Contact
03305 880364

**Erthygl i'r Wasg** **Press Release**

# Off to the seaside for a staycation

Good company, tasty food, a chance to relax and the occasional adventure (as well as some good weather) – this, it seems, would be the ideal holiday for most of us.

This is also what is on the wish list of the two teams who will be packing their bags and going on an adventure here in Wales in **Gwyliau Cartref** (Holidays at Home) as the series continues this week.

The pretty seaside town of Llangrannog, famous for being the home of Mistar Urdd and the Urdd camp, will be the holiday location for Beti and Dom, a brother and sister from Cardiff and Gwenan and her daughters from Ammanford.

There will be two completely different budgets but the enjoyment will be exactly the same. From the two different hotels to the fun activities and tasty meals, the two groups will be discovering some of the delights on their doorsteps.

Beti and Dom from Cardiff haven't been on holiday together for several years, but there are plenty of memories from past holidays as they look forward to their journey:

"We usually used to go on holiday to a caravan in Pembrokeshire when we were young. A perfect holiday for me would be somewhere away from tourists where I can absorb the culture and sample the food," said Dom, who is a regular presenter for Hansh.

But his sister Beti who studies fashion at university and is also a presenter on Hansh has the weather on her mind:

"On summer holidays I like to be hot," said Beti. "I hate being cold!"

Gwenan, who is originally from Bangor but now lives in Ammanford, is looking forward to making new memories with her two children, Megan (12) and Anni (9) on their holidays.

"We usually go to Europe – to France or Spain to enjoy a camping or caravan holiday," said Gwenan.

"We hope that we will have a lot of fun together on this holiday and it's a chance for us to do new things that we haven't done before as a family."

Among the activities on the holiday will be disk golf, a sling and rope skills class, a surfing lesson and a visit to a local gin company.

Will everybody be happy despite the two different budgets? Will the weather hold for Beti? Will Megan and Anni have fun with their mum? Watch and find out!

**Gwyliau Gartref**
**Dydd Mawrth 16 Awst 9.00, S4C**
**English and Welsh subtitles available**
**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**
**A Boom Cymru production for S4C**